# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

29 Medi 2014

Annwyl Carl

**Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Rhagor o wybodaeth**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor yr wythnos diwethaf ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gan fod y Bil yn cwmpasu amrywiaeth mor eang o faterion, roedd llawer o faterion na lwyddodd y Pwyllgor i'w trafod â chi yn y cyfarfod. Rhestrir y materion hynny yn y llythyr hwn, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhain yn ysgrifenedig.

**Diffinio Datblygu Cynaliadwy yn y Bil a'r ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy**
Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro'r canlynol:

- ystyr "llesiant" a sut y mae'n ymwneud â'r defnydd o'r term yn Neddfau a Mesurau eraill y Cynulliad, yn benodol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*; ac
- ystyr adran 3 a'r effaith y bwriedir iddi ei chael, yn benodol sut y bydd corff cyhoeddus, yn ymarferol, yn dangos ei fod wedi "ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau", gan gynnwys ystyr "ceisio sicrhau" ac "anghenion" yn y ddarpariaeth hon.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8026
E-bost / Email:
catherine.hunt@cymru.gov.uk

**Cyrff cyhoeddus**

Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor pe gallech egluro'r canlynol:

- pam na chaiff sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG a chynghorau cymunedol eu cynnwys yn adran 5; ac
- o dan pa amgylchiadau y caiff y pŵer i ddiwygio'r cyrff cyhoeddus y mae'r Bil yn gymwys iddynt, drwy reoliadau, ei ddefnyddio a dull yr ymgynghoriad.

**Nodau llesiant**

Mewn perthynas â'r Nodau Llesiant, a fyddech cystal â darparu rhagor o fanylion am sut y byddech yn rhagweld y byddai corff cyhoeddus yn "ymgyrraedd at y bwriad cyffredin drwy geisio cyrraedd y nodau llesiant", yn benodol, ystyr "ymgyrraedd" a "ceisio cyrraedd" yn y ddarpariaeth.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion am yr amgylchiadau lle byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau i ddiwygio'r nodau drwy reoliadau, a dull yr ymgynghoriad.

**Amcanion llesiant a'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus**

Mewn perthynas â'r amcanion a'r ddyletswydd llesiant, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am:

- a yw'r dyletswyddau'n gyson â ***holl*** ddyletswyddau statudol eraill cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil a'r camau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau hyn; a

- sut y mae'r Bil yn gweithredu'r bwriad yn y Memorandwm Esboniadol "bod gofynion y Bil yn cael eu hymgorffori i'r prosesau cynllunio busnes a llywodraethu corfforaethol presennol", yn benodol, a oes yn rhaid i'r amcanion gwmpasu ***holl*** benderfyniadau corff ac, os felly, sut y caiff hyn ei wneud yn glir yn y Bil.

**Mesur perfformiad**

A fyddech cystal ag ymateb i arsylwadau'r Archwilydd Cyffredinol na fydd yn bosibl dibynnu ar ddangosyddion i asesu perfformiad cyrff cyhoeddus penodol wrth gyflawni nodau ac na all y sector cyhoeddus, ar ei ben ei hun, gyflawni'r nodau fel y maent wedi'u llunio ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb i hyn a'ch barn ar unrhyw oblygiadau y gallai hyn ei olygu ar gyfer defnyddio dangosyddion i asesu perfformiad cyrff cyhoeddus, naill ai'n unigol neu ar y cyd.

Mae nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi awgrymu nad yw'r cyfrifoldeb am sicrhau gorfodaeth yn glir gan fod y Bil yn cynnwys cyfeiriadau sy'n awgrymu rolau ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol. Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad pellach am bwy sy'n gyfrifol am orfodaeth, yn ogystal â manylion am rôl benodol Gweinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Roedd penodiad a swyddogaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn un o'r materion allweddol a godwyd gan y rhanddeiliaid yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad.  Awgrymodd llawer y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi'r

Comisiynydd, ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi a ydych o'r farn y gellir ystyried y Comisiynydd fel endid annibynnol o ystyried rôl arwyddocaol Gweinidogion Cymru o ran ei benodi a'i lywodraethu.

Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu i'r Pwyllgor bod y ddyletswydd yn adran 20 ar gyrff cyhoeddus i gymryd "pob cam rhesymol" i ddilyn argymhellion y Comisiynydd yn wan o ran arfer oherwydd gallai cyrff cyhoeddus osgoi argymhelliad yn hawdd. Felly, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r awgrym hwn, a manylion am sut y byddech yn disgwyl i gorff ddangos ei fod yn "fodlon bod rheswm da iddo beidio â dilyn yr argymhelliad mewn categorïau penodol o achosion neu o gwbl", neu ei resymeg, os bydd yn "penderfynu ar ddull gweithredu amgen".

A allech hefyd egluro'r canlynol:

- y rheswm pam fod pŵer y Comisiynydd i roi cyngor a chymorth o ran y newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfyngu i roi cyngor i Weinidogion, a sut y mae cyngor o'r fath yn ymwneud â rôl Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd;
- o dan pa amgylchiadau y gallai Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i gyrff cyhoeddus eraill ar eu hymateb i argymhelliad;
- sut y mae'r Bil yn sicrhau y ceir ymateb priodol gan Weinidogion Cymru i argymhelliad a gyfeirir atynt; a
- pham fod adran 23 (cydweithio) yn ofynnol o ystyried ei bod yn darparu'r pŵer, ond nid dyletswydd, i gydweithio - sef rhywbeth y gallai'r Comisiynydd, yn ôl pob tebyg, ei wneud beth bynnag.

**Panel Cynghori'r Comisiynydd**
Mewn perthynas â'r panel cynghori, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau lle caiff y pŵer i benodi Aelodau ychwanegol o dan adrannau 24 a 25 ei ddefnyddio a pham mai Gweinidogion Cymru ac nid y Comisiynydd sydd â'r pŵer hwn.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**
Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r pryderon a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y goblygiadau o sicrhau adnoddau ar gyfer anghenion 22 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel aelod statudol.

Nodir fod yr asesiadau a'r adolygiadau a geir yn adran 36(3), y mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi asesiadau o lesiant lleol, i gyd yn gymdeithasol.  Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro pam felly a sut y mae hyn yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel y'i nodir yn y "nod cyffredin" a'r "nod lleol".

Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael manylion am yr amgylchiadau lle byddai Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 31 i ddiwygio aelodaeth, cyfranogwyr a phartneriaid eraill. Hefyd, a fyddech cystal ag egluro sut y mae'r ddarpariaeth ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

Hefyd, a fyddech cystal ag ymateb i'r awgrym gan rai rhanddeiliaid bod y cynigion yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion ragnodi rolau, prosesau a chanlyniadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac egluro sut y mae hyn yn cydbwyso'r angen am gysondeb â democratiaeth leol.

**Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Darpariaethau Ariannol**
Rydym yn ddiolchgar am eich sylwadau yn y sesiwn dystiolaeth lafar ynghylch pam na chredwch y bydd cost sylweddol yn gysylltiedig â darparu'r Bil. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pryderon penodol a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ***cywirdeb yr amcangyfrifon a'r dull ar gyfer paratoi'r amcangyfrifon o gostau*** a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn hytrach na graddau'r costau tebygol eu hunain. Darperir lincs i'w tystiolaeth isod:
www.senedd.assemblywales.org/documents/s30031/WFG%2020%20Auditor%20General%20for%20Wales.pdf
www.senedd.assemblywales.org/documents/s30029/WFG%2018%20Chair%20Wales%20Audit%20Office.pdf

**Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.**
Nodir y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc. yn adran 52 a byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pam fod angen pŵer o'r natur a'r cwmpas hwn, ac o dan pa amgylchiadau y caiff ei ddefnyddio.

**Craffu ar ran 4 o'r Bil**


Nodir eich sylw ar 25 Medi mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, sef efallai y bydd pethau yr hoffem eu trafod ag ef hefyd. Fodd bynnag, o ystyried yr amser byr sydd ar gael i graffu ar y Bil, ni fydd yn bosibl trefnu sesiwn ar wahân gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r materion a godwyd oherwydd natur drawsbynciol y Bil, byddem yn gofyn, fel yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil, eich bod mewn sefyllfa i ateb cwestiynau am egwyddorion, goblygiadau a darpariaeth pob rhan o'r Bil, gan gynnwys rhan 4, pan fyddwch yn dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Hydref. Bydd clerc y Pwyllgor yn fwy na pharod i drefnu y gall unrhyw gydweithwyr sy'n briodol yn eich barn chi fod yn bresennol yn y cyfarfod gyda chi.

Rwy'n gwerthfawrogi y codwyd rhai materion arwyddocaol yn y llythyr hwn, ond o ystyried eu pwysigrwydd, cred y Pwyllgor fod derbyn y wybodaeth ychwanegol hon yn hollbwysig i'w ystyriaeth o'r Bil.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion hyn erbyn **dydd Iau 9 Hydref.** Rwy'n gwerthfawrogi fod amser yn brin, ond mae'n ymwneud a'r amserlen ehangach ar gyfer Cyfnod 1 a'r angen inni gael eich ymateb mewn da bryd i allu ystyried y wybodaeth yn llawn cyn ichi ddod i'n cyfarfod ar 23 Hydref.

Yn gywir



**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**